Canllawiau i gyrff dyfarnu ar Gydnabod Dysgu Blaenorol

CYMWYSTERAU CYMRU
QUALIFICATIONS WALES

Cefndir

Rydym yn gyfrifol am reoleiddio cymwysterau a'r system gymwysterau yng Nghymru.

Rydym yn rheoleiddio'r cyrff dyfarnu sy'n cael eu cydnabod gennym i ddatblygu, cyflwyno a dyfarnu cymwysterau i ddysgwyr yng Nghymru. Mae pob corff dyfarnu cydnabyddedig yn ddarostyngedig i'n rheolau, gan gynnwys y rhai a nodir yn yr Amodau Cydnabod Safonol.

Cynhaliwyd adolygiad gennym o'r Amodau Cydnabod Safonol yn 2019-20 a chyhoeddwyd Amodau diwygiedig a ddaeth i rym ar 1 Hydref 2020. Yn ystod yr adolygiad dywedodd cyrff dyfarnu wrthym y byddai canllawiau'n ddefnyddiol er mwyn cefnogi eu cydymffurfiad parhaus â'r Amodau.

Felly, pwrpas y ddogfen hon yw cefnogi cyrff dyfarnu i gydymffurfio. Ni fwriedir i hyn fod yn rhagnodol ac yn y modd hwn, cyfrifoldeb y corff dyfarnu yw penderfynu sut i gydymffurfio â'i amodau cydnabod.

Hanes y Fersiwn

Cyhoeddwyd y canllawiau hyn ym mis Mehefin 2021.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu adborth ar y ddogfen ganllaw hon, anfonwch e-bost at y tîm polisi rheoleiddio yn polisi@cymwysteraucymru.org.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.

Cynnwys

1. Cyflwyniad 3
2. Prif ofynion ac egwyddorion cyffredinol CDB 3
3. Beth yw Cydnabod Dysgu Blaenorol? 4
4. Dulliau o ymdrin â CDB 7
5. Gweithredu CDB 9
6. Asesu dysgu, cyflawniad a phrofiad blaenorol 10
7. Cyhoeddi datganiad polisi 16
8. Cynnal a chydymffurfio â'r polisi CDB 17
9. Gwybodaeth a chefnogaeth bellach 18
10. Rhestr termau 19
11. Dolenni Defnyddiol 19

Canllawiau i gyrff dyfarnu ar Gydnabod Dysgu Blaenorol (CDB)

1. Cyflwyniad

1.1 Mae Amod E10 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff dyfarnu gyhoeddi polisi ynghylch a ydynt yn cynnig Cydnabod Dysgu Blaenorol (CDB) ai peidio, ac os ydynt yn gwneud hynny, ym mha amgylchiadau. Er ei bod yn ofynnol i gyrff dyfarnu gael polisi CDB cyhoeddedig, nid yw'n ofynnol iddynt gydnabod dysgu blaenorol. Bwriad Amod E10 yw gwneud eich safbwynt yn glir i ddarpar brynwyr a defnyddwyr eich cymwysterau. Yn yr un modd, lle mae'r corff dyfarnu yn cydnabod dysgu blaenorol, mae angen i'ch polisi nodi hyn yn glir i brynwyr a defnyddwyr y cymwysterau hynny, a rhaid i'r corff dyfarnu sicrhau bod y polisi yn ei alluogi i ddyfarnu cymwysterau mewn ffordd sy'n cydymffurfio â'i Amodau Cydnabod.

1.2 Mae'r canllawiau hyn wedi'u cynllunio ar gyfer cyrff dyfarnu ac mae'n archwilio'r hyn a olygwn wrth gydnabod dysgu, cyflawniad a phrofiad blaenorol yn ogystal â materion i'w hystyried wrth lunio a gweithredu polisi CDB, a sut i gefnogi canolfannau drwy'r broses CDB.

1.3 Mae hyn ar gyfer cyrff dyfarnu gan gynnwys sut mae cyrff dyfarnu yn gweithio gyda'u canolfannau cydnabyddedig. Nid yw hyn yn ymwneud â sut mae darparwyr dysgu ac addysgu yn pennu derbyniadau, dilyniant na mynediad i'r cyrsiau astudio cywir.

1.4 Yn y canllawiau mae enghreifftiau sy'n disgrifio'r mathau o gamau y byddem yn disgwyl i gorff dyfarnu eu cymryd i sicrhau lle y cynigir, bod polisïau CDB yn cael eu cyhoeddi, eu cynnal a'u cydymffurfio.

2. Prif ofynion ac egwyddorion cyffredinol CDB

2.1 Hanfod Amod E10 yw bod cyrff dyfarnu yn ei gwneud yn glir i ddefnyddwyr cymwysterau pa un ai bod **dysgu blaenorol** yn cael ei gydnabod ac, os ydyw, yn amlinellu eich dull gweithredu a phryd a sut y mae'n berthnasol. Yn y pen draw, mae cydymffurfio ag E10 yn golygu y gall defnyddwyr gael mynediad hawdd ac felly yn penderfynu a yw corff dyfarnu yn cynnig CDB ai peidio ac, os felly, ym mha amgylchiadau.

2.2 Prif ofynion yr Amod yw:

E10.1 Rhaid i gorff dyfarnu gyhoeddi, cynnal a chydymffurfio â pholisi sy'n pennu a yw'n Cydnabod Dysgu Blaenorol ai peidio.

E10.2 Mewn unrhyw amgylchiadau lle mae'r polisi sydd ganddo ar waith yn caniatáu Cydnabod Dysgu Blaenorol, rhaid i gorff dyfarnu sicrhau bod y polisi yn ei alluogi i ddyfarnu cymwysterau mewn ffordd sy'n cydymffurfio â'i Amodau Cydnabod.

2.3 Lle rydych chi'n cynnig CDB, dyma **egwyddorion cyffredinol** i gadw mewn cof:

i) Datblygu polisïau a phrosesau CDB sy'n hygyrch, yn gynhwysol ac yn hyblyg i ddiwallu anghenion rhesymol pob dysgwr, o bob cefndir, a phrofiad;

ii) Mae dulliau asesu CDB yn drylwyr, yn gyson ac yn deg i bob dysgwr ac yn seiliedig ar fecanweithiau sicrhau ansawdd cadarn ac effeithiol;

iii) Mae prosesau CDB yn hyrwyddo hyder yn y broses a'r canlyniad;

iv) Mae CDB yn dileu dyblygu diangen wrth asesu, lle mae dysgu eisoes wedi'i sicrhau / dysgu;

v) Mae rolau a chyfrifoldebau dysgwyr, canolfannau a chyrff dyfarnu sy'n rheoli ac yn cefnogi prosesau CDB yn glir ac yn ddealladwy a, lle bo angen, darperir cymorth; ac

vi) Mae'r wybodaeth ynglŷn â'r amgylchiadau lle gall defnyddwyr cymwysterau gael mynediad i GDB yn glir ac yn dryloyw.

3. Beth yw Cydnabod Dysgu Blaenorol?

3.1 Defnyddir **Cydnabod Dysgu Blaenorol (CDB)** i ddisgrifio lle mae dysgu, cyflawniad a / neu brofiad blaenorol dysgwr yn cael ei gydnabod gan gorff dyfarnu naill ai fel modd o fynd ymlaen i astudio am gymhwyster neu gael ei eithrio o ran o'r cymhwyster neu o'r cymhwyster cyfan.

3.2 Mae **Adran J** o'r Amodau Cydnabod Safonol yn diffinio CDB fel a ganlyn:

(a) cydnabyddiaeth gan gorff dyfarnu o unrhyw ddysgu a gyflawnwyd, a/neu gyflawniad, gan ddysgwr:

i) cyn i'r Dysgwr hwnnw gymryd un o'i gymwysterau, neu gymwysterau arfaethedig; ac

ii) sy'n berthnasol i'r wybodaeth, y sgiliau a'r dealltwriaeth a gaiff eu hasesu fel rhan o'r cymhwyster hwnnw; a

(b) bod corff dyfarnu yn cydnabod y dysgu a/neu'r cyflawniad hwnnw drwy ddiwygio'r gofynion y mae'n rhaid i Ddysgwr fod wedi'u bodloni cyn i'r Dysgwr gael ei asesu neu y dyfernir y cymhwyster hwnnw.

3.3 Bydd corff dyfarnu yn ei hanfod yn dilyn proses i benderfynu pa ddysgu blaenorol y gellir ei gydnabod. Y broses CDB yn bennaf yw asesu tystiolaeth er mwyn cydnabod dysgu, cyflawniad neu brofiad blaenorol. Mae un broses o'r fath yn golygu asesu **Dilysrwydd, Dibynadwyedd, Cylchrediad a Digonolrwydd**[1] rhaid i'r dystiolaeth o ddysgu, cyflawniad neu brofiad blaenorol a glustnodwyd gael ei ddadansoddi er mwyn penderfynu i ba raddau y mae'n bodloni gofynion y cymhwyster cydnabyddedig. Mae angen i'r corff dyfarnu benderfynu ar ddull y mae'n mynd i'w gymryd a/neu ei gwneud yn ofynnol i ganolfan i ddadansoddi'r dystiolaeth ger eu bron, a sut y byddant yn penderfynu a ydynt am ei chydnabod ai peidio.

Ar gyfer pwy mae CDB?

3.4 Mae Cydnabod Dysgu Blaenorol yn ddysgwr-ganolog. Mae'n ddull sy'n canolbwyntio ar y dysgwr a fwriedir i gydnabod dysgu blaenorol a chefnogi dysgwyr i ddilyn llwybr mewn addysg, hyfforddiant a / neu'r gweithle. Nid yw CDB wedi'i gyfyngu i'r rhai sydd mewn addysg neu hyfforddiant ar hyn o bryd. Gall darpar ddysgwyr sydd â phrofiad blaenorol y gallent ddefnyddio o fewn y cymhwyster fanteisio arno, sy'n dymuno cael eu heithrio o rannau penodol o'r cymhwyster neu sy'n dymuno ceisio achrediad ar gyfer dysgu blaenorol. Dyma rai enghreifftiau o sut y gall CDB ddiwallu anghenion gwahanol ddysgwyr:

Engreifftiau o ddysgwyr	Amgylchiadau
• Di-waith / wedi'i ddiswyddo • Troseddwyr wedi'u hailsefydlu • Cyn-filwyr yn dychwelyd i fywyd sifil • Salwch neu analluogrwydd	• Mae angen ardystiad ffurfiol i chwilio am waith cyflogedig • Y rhai sydd wedi gweithio ac yn ceisio achrediad ffurfiol • Defnyddio sgiliau a gwybodaeth a ddatblygwyd mewn carchar i sicrhau cyflogaeth â thâl • Cydnabod yn ffurfiol gwasanaeth milwrol a phrofiad

[1] Ceir rhagor o wybodaeth am egwyddorion asesu ar https://www.sqa.org.uk/files_ccc/25GuideToAssessment.pdf

• Gweithwyr ymfudol • Mynediad i AU • Gweithwyr	• Gweithiwr yn dychwelyd i gyflogaeth yn dilyn cyfnod o absenoldeb sy'n gysylltiedig ag iechyd • Gweithiwr sy'n chwilio am gyfle i ddatblygu gyrfa yn y gweithle • Mae'r gofynion am gymwysterau proffesiynol wedi newid ac mae angen i weithwyr barhau i fod yn gystadleuol • Y rhai sydd am ailhyfforddi a defnyddio gwybodaeth a/neu gymwysterau blaenorol i hwyluso DPP • Trosglwyddo credydau o gymwysterau cyffredinol neu alwedigaethol tuag at radd prifysgol neu gymhwyster addysg uwch arall • Cydnabod y sgiliau, yr wybodaeth a'r profiad a gafwyd mewn cyflogaeth i'w ffurfioli'n gymwysterau ôl-raddedig. • Cydnabyddiaeth ffurfiol o wybodaeth, sgiliau neu gymwysterau a gafwyd y tu allan i Gymru

3.5 Mae CDB nid yn unig o fudd i ddysgwyr, ond gall hefyd fod o fudd i ganolfannau, cyflogwyr, y farchnad lafur, y system addysg a'r economi yn ogystal â'r corff dyfarnu. Mae enghreifftiau o fanteision CDB yn cynnwys:

- cydnabod gwerth dysgu, cyflawniad a phrofiad y tu allan i leoliadau addysgol ffurfiol;
- dilysu dysgu heb fod yn ffurfiol ac anffurfiol a gyflawnir yn annibynnol;
- annog a hwyluso dilyniant addysgol neu yrfa drwy lwybrau llai traddodiadol;
- lleihau hyd ac, o bosibl, cost dysgu, hyfforddi ac amser asesu;
- sicrhau gwell gwerth am arian lle caniateir i ddysgwyr ddilyn llwybr cyflym drwy gymhwyster;
- hyrwyddo dysgu gydol oes;
- darparu llwybrau ar gyfer gwaith ymfudol / symud llafur; a
- gwella hunan-barch a balchder dysgwyr.

3.6 Pan gaiff ei gynnal yn effeithiol ac i gydymffurfio, gall CDB ddarparu cyfleoedd i gyrff dyfarnu a chanolfannau. Gall ddenu dysgwyr drwy wneud cymwysterau'n fwy hygyrch ac, o bosibl leihau hyd y dysgu a/neu asesu. Ar y llaw arall, lle mae'r broses CDB yn rhy feichus neu ddim yn 'addas i'r diben' efallai nad dyma'r dull gorau posibl i'w gymryd. Mae'n bwysig ystyried yr holl risgiau yn ogystal â'r manteision, a sicrhau bod eich proses CDB mor gadarn ac yn cydymffurfio â'ch amodau cydnabod.

3.7 Gall **canolfannau** sy'n cynnig CDB fod yn ffactor i ddysgwr posibl wrth iddynt ddewis canolfan. Mae cynnig CDB yn darparu mwy o gyfleoedd i ganolfannau ymgysylltu â mwy o ddysgwyr a chael gwell dealltwriaeth o'r ffordd orau o ddiwallu anghenion dysgwyr.

3.8 Gall **cyflogwyr** ddefnyddio CDB fel ffordd effeithiol o adnabod sgiliau, bylchau mewn sgiliau a chyfleoedd hyfforddi priodol a lleihau amser hyfforddi.

3.9 Gall **cyrff dyfarnu** sy'n caniatáu CDB ddenu mwy o ganolfannau ac fe allai hyn arwain at ddiwallu anghenion busnes ehangach y ganolfan.

3.10 Er y gall fod manteision a buddion i gynnig CDB, rhaid cydbwyso hyn â'r risgiau posibl. Rhaid i'ch dull Polisi CDB gydymffurfio â'ch amodau cydnabod.

4. Dulliau o ymdrin â CDB

4.1 Nid oes un dull ymdrin â CDB sy'n addas i bawb: yn hytrach, ceir dulliau gwahanol y gellir eu defnyddio yn dibynnu ar gyd-destun / sefyllfa ac anghenion y dysgwr. Mae'r adran hon yn amlinellu rhai o'r gwahanol ddulliau o ymdrin â CDB a'r gwahanol ffynonellau tystiolaeth y gellid eu hasesu wrth gydnabod dysgu blaenorol.

Cydnabod dysgu blaenorol heb dystysgrif

4.2 Mae hwn yn ddull a ddefnyddir lle mae gan y dysgwr addysg flaenorol ond nad oes ganddo unrhyw ardystiad ffurfiol fel tystiolaeth bod y dysgu hwnnw wedi cael ei gyflawni. Felly, mae'r CDB hwn (heb ei ardystio) yn defnyddio tystiolaeth nad yw'n seiliedig ar asesiad ffurfiol, crynodol neu ardystiedig.

4.3 Gall fod nifer o sgiliau, gwybodaeth a phrofiad y mae pobl yn eu datblygu yn sgîl gweithgareddau dysgu sydd **heb fod yn ffurfiol** ac **anffurfiol**. Gall enghreifftiau o weithgareddau o'r fath lle mae dysgwyr yn dysgu o brofiad gynnwys:



Ffigwr 1: Enghreifftiau o ffynonellau dysgu heb fod yn ffurfiol ac anffurfiol.

4.4 Yn y dull hwn, byddai eich polisi CDB yn nodi'r mathau o dystiolaeth yr ydych yn barnu eu bod yn briodol a sut y byddech chi a/neu'ch canolfannau yn derbyn ac yn dadansoddi'r dystiolaeth hon i benderfynu pa gydnabyddiaeth y gellir ei rhoi tuag at ofynion mynediad neu tuag at eithriad rhannol o gymhwyster. Gall gwybodaeth am ddulliau CDB amrywio yn ôl cymwysterau unigol ac felly byddwch yn nodi hyn yn eich polisi CDB a gallwch hefyd ystyried nodi dulliau penodol o gymhwyso ym manyleb y cymhwyster neu ddogfennau cysylltiedig.

4.5 Ceir rhagor o wybodaeth ac ystyriaethau wrth asesu tystiolaeth CDB yn rhan o **Adran 6 'Asesu tystiolaeth CDB'** o'r canllawiau hyn.

Cydnabod dysgu blaenorol gyda thystysgrif

4.6 Dyma le mae cymhwyster sydd eisoes wedi'i gyflawni gan ddysgwr (a lle'r oedd tystysgrif a/neu drawsgrifiad yn nodi'r gwerth credyd a gafwyd eisoes) a gellir defnyddio'r dystiolaeth hon i bennu eithriadau i gymhwyster arall. Gall ennill cymhwyster gyfrif tuag at y cyfan neu ran o gymhwyster arall: sy'n golygu bod y dysgwr wedi'i eithrio rhag cymryd cydrannau neu unedau penodol a'i fod ond yn cymryd yr unedau y mae angen iddynt eu cymryd er mwyn cael y cyfle i ennill y cymhwyster newydd.

4.7 Byddai eich polisi CDB yn nodi pa dystiolaeth sydd ei hangen arnoch i bennu unrhyw eithriadau ar gyfer pa gymwysterau ac o dan ba amgylchiadau.

Unedau Cyfatebol

4.8 Mae hwn yn ddull o ymdrin â CDB a ddefnyddir yn eang o fewn rhaglenni astudio galwedigaethol, yn enwedig lle defnyddir unedau cyfatebol neu debyg o un cymhwyster i ddiwallu rhai o ofynion cymhwyster arall, lle y caniateir hynny gan y corff dyfarnu.

4.9 Bydd cyfrannau cymhwyster y gellir ei asesu drwy CDB yn amrywio gan ddibynnu ar bolisi'r corff dyfarnu ar CDB a natur a maint cymhwyster. Pan fydd dysgwr yn cychwyn ar gymhwyster newydd, mae'n debygol y bydd cyfran o wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth newydd i'w dysgu ac felly, mae tystiolaeth CDB fel arfer yn cael ei hategu gan fathau eraill o dystiolaeth, gan ddibynnu ar anghenion CDB y dysgwr.

4.10 Mater i'r corff dyfarnu yw penderfynu pa achrediad rhannol i unedau a ganiateir, o ystyried yr amgylchiadau penodol. Pan roddir CDB ar gyfer rhai o'r unedau, mater i'r corff dyfarnu yw penderfynu pa ddulliau asesu eraill y gellir eu defnyddio i gwblhau gweddill gofynion yr uned. Byddai angen nodi eich dull gweithredu yn eich polisi CDB.

Trosglwyddo Credyd

4.11 Mae trosglwyddo credyd yn derm a ddefnyddir i ddisgrifio'r broses o drosglwyddo credyd o un cymhwyster i gymhwyster gwahanol, er nad oes gan bob cymhwyster gredyd wedi'i neilltuo iddynt.

4.12 Defnyddir y dull hwn o ymdrin â CDB fel arfer lle mae trawsgrifiadau ar gael a/neu lle mae gwerthoedd credyd yn cael eu neilltuo i ran o gymhwyster. Gall hyn fod yn berthnasol hefyd pan fo dysgwr wedi ennill cymhwyster yn rhannol a gellir priodoli rhai credydau.

4.13 Gall myfyrwyr gadw credydau a enillwyd o ddysgu ardystiedig blaenorol i fynd i mewn neu symud yn ochrol neu'n lletraws i wahanol raglenni astudio gan yr un darparwr dysgu, neu ddarparwr dysgu gwahanol. Mae darparwyr dysgu yn cymhwyso'r broses fynegi sy'n cyfateb i gynnwys o un cwrs gyda chynnwys un arall. Cydnabyddir y dull hwn yn rhyngwladol, yn ogystal ag yng Nghymru.

5. Gweithredu CDB

5.1 Mater i bob corff dyfarnu yw penderfynu i ba raddau y caniateir CDB. Efallai y bydd gan gorff dyfarnu bolisi sy'n datgan y caniateir CDB yn gyffredinol, neu efallai fod ganddo ddatganiad polisi sy'n nodi amgylchiadau penodol, neu lle y mae cymwysterau CDB yn gymwys. Yn unol â'r Amodau, mae angen i'r datganiad a gyhoeddir ar wefan y corff dyfarnu fod yn glir o dan ba amgylchiadau y caniateir CDB. Gall amgylchiadau ymwneud â chymhwyster cyfan neu unedau o'r cymwysterau neu gellid eu cymhwyso hefyd i fathau o ddysgwyr neu fathau o asesiad CDB.

5.2 Anogir corff dyfarnu i ystyried pryd a sut i gymhwyso CDB ac, wrth benderfynu ar hyn, rhaid i chi sicrhau eich bod yn cydymffurfio â'ch amodau cydnabod. Mae'r rhain yn enghreifftiau o rai o'r ffactorau yr hoffech eu hystyried wrth nodi ym mha amgylchiadau i ganiatáu CDB ai peidio:

Amgylchiadau	Enghreifftiau
Gellir peryglu canlyniad yr asesiad o dystiolaeth CDB	Pan fo dysgwyr eraill yn cael eu rhoi dan fantais neu anfantais, neu os na chyrhaeddir safonau
Ni ystyrir bod tystiolaeth CDB yn ddilys neu lle na fyddai'n cydymffurfio â'ch amodau cydnabod	Lle nad yw gofynion rheoliadol, proffesiynol neu statudol eraill yn cael eu bodloni, e.e. nifer yr oriau ymarfer sy'n ofynnol cyn cymhwyso
Mae'r broses CDB yn mynd yn rhy feichus	Mae dadansoddi tystiolaeth CDB yn gofyn am fwy o adnoddau na chwblhau'r asesiad
Nid yw'r broses CDB yn gost-effeithiol i'w chymhwyso	Lle mae'r costau'n drech na'r manteision, e.e. mae'r amser a gymerir i ddadansoddi'r dystiolaeth yn costio mwy na'r manteision sy'n gysylltiedig â chaniatáu'r CDB
Mae'r dystiolaeth sydd ar gael i asesu CDB wedi dyddio	Datblygodd gofynion y diwydiant dros amser ac mae sgiliau a gwybodaeth yn llai neu ddim yn berthnasol mwyach, e.e. sgiliau marchnata
Mae grwpiau penodol o ddysgwyr yn cael eu gwahardd rhag cael cymhwyster neu gwrs	Gellid gwahaniaethu yn erbyn dysgwyr aeddfed sy'n dychwelyd i'r gwaith

5.3 Fel arfer, byddai penderfyniadau ynglŷn â phriodoldeb CDB yn cael eu gwneud fesul dysgwr a / neu gymwysterau fesul cymhwyster.

6. Asesu dysgu, cyflawniad a phrofiad blaenorol

6.1 Yng nghyd-destun CDB, 'asesu' yw'r broses o ddadansoddi'r dystiolaeth o wybodaeth, sgiliau neu brofiad dysgu blaenorol dysgwr unigol a phenderfynu a yw hyn yn sail briodol ar gyfer cydnabod hyn ac i ba raddau er mwyn eithrio'r dysgwr o ran o'r cymhwyster neu o'r holl gymhwyster.

Dyletswyddau a Chyfrifoldebau

6.2 Mae hyder yn y system CDB yn dibynnu ar wybodaeth ac arbenigedd y rhai sy'n ymwneud â'r broses CDB. Yma, rydym yn archwilio cyfrifoldebau'r rhai sy'n gysylltiedig â'r camau gweithredu sy'n llifo drwy'r broses CDB:

Rhanddeiliaid	Cyfrifoldeb
Corff dyfarnu	Mae'r corff dyfarnu yn gyfrifol am CDB ac am sicrhau bod ganddo bolisi CDB a'i fod yn gweithredu yn unol â'r polisi hwnnw a, lle bo angen, yn rhoi arweiniad neu hyfforddiant priodol i ganolfannau ar ddulliau a gofynion CDB. Mae'n bennaf gyfrifol am sicrhau uniondeb a thegwch yn y broses ddyfarnu ac am weithredu yn unol â'i amodau cydnabod. Yn ymarferol, y Ganolfan a fyddai fel arfer yn adnabod darpar ddysgwyr. Efallai y bydd dysgwyr yn cysylltu â'ch canolfannau yn gofyn am CDB. Dylai cyrff dyfarnu ystyried pa wybodaeth y maent yn ei darparu i'w canolfannau am CDB, gan sicrhau eu bod yn gwbl ymwybodol o'r polisi CDB. Gallwch ddarparu hyfforddiant i'ch canolfannau ar CDB. Wrth gynnal prosesau sicrhau ansawdd, anogir cyrff dyfarnu i wirio prosesau ac arbenigedd CDB staff sy'n rhan o weithgareddau CDB, gan sicrhau bod canlyniadau ar gyfer y cymhwyster yn seiliedig ar dystiolaeth ddigonol ac yn cydymffurfio â gofynion **Amod H5**.
Rheoli canolfannau	Cyfrifoldeb y ganolfan yw sicrhau eu bod yn cynnal CDB yn unol â'ch polisi a'ch prosesau. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod gan staff y ganolfan sy'n ymwneud â'r broses CDB arbenigedd pwnc a/neu sector sy'n berthnasol i'r cymhwyster ac sy'n ddigonol i fodloni gofynion cyflawni, asesu a sicrhau ansawdd. Mae gan y ganolfan rôl i'w chwarae hefyd o ran adnabod dysgwyr a gweithio'n agos gyda'r corff dyfarnu i hyrwyddo CDB yn unol â'i bolisi.
Aseswr	Cyfrifoldeb aseswr y ganolfan neu'r corff dyfarnu yw asesu'n gywir y dystiolaeth CDB a gyflwynir gan y dysgwr ac i wneud penderfyniadau ffurfiol, crynodol sy'n cadarnhau a yw'r dystiolaeth yn ddigonol ac yn ddilys i ddiwallu targedau y gofynion asesu ai peidio. Mae'r asesydd hefyd yn gyfrifol am roi adborth i'r dysgwr yn unol â chanlyniad yr asesiad.
Swyddog Sicrhau Ansawdd Mewnol	Mae'r swyddog / dilysydd sicrhau ansawdd mewnol yn gyfrifol am wirio penderfyniadau a wnaed gan yr asesydd CDB e.e. bod tystiolaeth asesu yn cyfateb i'r meini prawf asesu fel yr hawliwyd ac yn cadarnhau a yw'r dystiolaeth CDB yn ddigonol ai peidio.

Y Broses CDB

6.3 Mae'r broses CDB yn dechrau cyn i unrhyw dystiolaeth o ddysgu blaenorol gael ei hasesu. Mae'n dechrau drwy greu diwylliant CDB drwy weithio gyda chanolfannau i groesawu a chymhwyso CDB, drwy ddatblygu dulliau sy'n canolbwyntio ar y dysgwr.

6.4 Byddai datblygu diwylliant CDB yn cynyddu ymwybyddiaeth ac yn manteisio ar CDB. Yma, rydym yn edrych yn gryno ar wahanol gamau'r broses CDB:



Ffigwr 2: Camau'r broses CDB.

Adnabod ac ymwybyddiaeth

6.5 Adnabod cyfleoedd CDB yw dechrau'r broses CDB. Cyfeirir yn aml at y cam hwn o'r broses fel yr '**Asesiad Cychwynnol'** ac fe'i defnyddir i sicrhau bod y dysgwr yn cael ei roi ar y cymhwyster cywir yn seiliedig ar anghenion, nodau ac addysg blaenorol penodol y dysgwr.

6.6 Pan fydd dysgwyr yn cysylltu ag un o'ch canolfannau, neu lle mae staff y ganolfan yn adnabod dysgwyr, cânt gyfle i ddod i adnabod eu hanghenion ac adeiladu perthynas barhaol sy'n cefnogi'r dysgwr i ddewis y cymhwyster cywir ar eu cyfer a gobeithio y bydd hyn yn gymorth i ymgysylltu, cyflawni a datblygu.

6.7 Efallai y bydd adegau pan fydd dysgwr yn cysylltu â chi'n uniongyrchol i gael achrediad neu i gael ei eithrio, neu pan fydd canolfan yn cysylltu â chi yn gofyn am GDB ar gyfer dysgwr penodol. Mewn sefyllfaoedd o'r fath, eich rôl fyddai sefydlu'r cymhwyster neu'r uned/cydran y mae'r dysgwr yn ceisio eithriad ar ei gyfer, a phenderfynu a yw'r dystiolaeth a gyflwynir yn briodol i gwmpasu'r cynnwys sy'n ofynnol ai peidio.

6.8 Pa un ai mai chi sydd wedi cwblhau hyn neu eich canolfan ar eich rhan, mae'r gweithgaredd asesu CDB cychwynnol hwn yn sefydlu'r man cychwyn ar gyfer dysgwr ar y rhaglen astudio o'i ddewis gan ei fod yn nodi faint o ddeilliannau dysgu y cymhwyster a allai gael eu cynnwys gan ddysgu, cyflawniad a/neu brofiad blaenorol. Bydd hyn yn atal dysgwyr rhag treulio amser yn dysgu gwybodaeth a sgiliau y gallent brofi eu bod eisoes yn meddu arnynt.

6.9 Mae'r cam hwn hefyd yn nodi'r cyfle i gymhwyso CDB a gweithio gyda'r dysgwr i gytuno pa dystiolaeth y gellir ei darparu a'i chyflwyno ar gyfer y broses CDB. Ar hyn o bryd, byddwch chi neu'ch canolfan yn creu cynllun sy'n nodi sut a phryd y bydd dysgu blaenorol yn derbyn sylw a'i asesu. Pennir hyn gan nodau dysgu'r uned a'r cymhwyster perthnasol ac ystyried natur y dystiolaeth CDB sydd ar gael.

Ystyriaethau
• Pam mae CDB yn opsiwn posibl i'r dysgwr? • Pa effaith y byddai unrhyw ofynion rheoliadol perthnasol yn ei chael ar y cymhwyster neu'r cwrs, e.e. amser gorfodol i dreulio, trwydded i ymarfer? • Pa mor gyfoes y mae angen i wybodaeth a sgiliau fod ar gyfer y cymhwyster/cwrs? • Pa fath o GDB sy'n diwallu orau anghenion y dysgwr a/neu'r uned a'r cymhwyster? • Pa opsiynau sydd ar gael i'r dysgwr os nad ystyrir bod tystiolaeth CDB yn briodol? • Sut gall darpar ddysgwr ddiweddaru gwybodaeth a sgiliau i ddiwallu gofynion y cymwysterau/cyrsiau?

Dadansoddi tystiolaeth CDB

6.10 Bydd aseswyr y ganolfan neu'r corff dyfarnu yn asesu'r dystiolaeth a ddarperir gan y dysgwr a/neu'r ganolfan. Ceir dulliau asesu amrywiol, ac fel arfer bydd aseswyr yn penderfynu a yw'r dystiolaeth o sgiliau a/neu wybodaeth a ddysgwyd yn flaenorol a/neu a gyflawnwyd yn Ddilys, Dibynadwy, Cyfredol a Digonol. Mae'r rhan fwyaf o gyrff dyfarnu, colegau a phrifysgolion yn defnyddio'r ansoddeiriau hyn, neu rywbeth tebyg wrth ffurfio barn ar briodoldeb tystiolaeth CDB er mwyn sicrhau tegwch a chysondeb:

Egwyddorion asesu	
Dilys	Asesu dysgu, cyflawniad neu brofiad yn cyfateb yn gywir
Awthentig	Mae'r dystiolaeth a gyflwynir yn cynrychioli sgiliau, gwybodaeth a phrofiad gwirioneddol ac unigol.
Dibynadwy	Dylai tystiolaeth asesu roi hyder y byddai'r un canlyniad yn cael ei gyflawni pe bai'r gweithgaredd asesu'n cael ei ailadrodd.

Cyfredol	Cyfrifoldeb y corff dyfarnu yw pennu unrhyw derfyn amser ar gyfer amseru'r dystiolaeth a ddefnyddir at ddibenion CDB. Gall pennu gofynion ar amseru'r dystiolaeth fod yn briodol neu beidio, a gall amrywio gan ddibynnu ar y cyd-destun, y dysgwr, sector a phwnc y cymhwyster lle mae CDB yn cael ei gymhwyso. Rhaid i gyrff dyfarnu barhau i gydymffurfio â'r Amodau Cydnabod Safonol, ynghyd â deddfwriaeth cydraddoldeb, er mwyn osgoi gwahaniaethu ar sail oedran. Bydd angen i chi fel corff dyfarnu ystyried os ydy pennu gofynion ar amseru'r dystiolaeth yn cynrychioli dull cymesur o gyflawni nod a nid yw'n gwahaniaethu dysgwyr ar sail oedran.
Digonol	Mae tystiolaeth yn ddigon i fodloni gofynion yr uned, neu unedau sy'n cael eu cyflawni drwy asesiad CDB.

6.11 Yn ogystal â'r egwyddorion hyn, yn unol ag **Amod D1 a G9**, rhaid i asesiad CDB fod yn 'addas i'r diben'. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid hefyd asesu'r cymhwyster mewn modd sy'n:

- **gymharol** – yn gwneud cymariaethau teg ynglŷn â chyrhaeddiad Dysgwyr ac i sicrhau y gellir defnyddio'r canlyniadau i fesur o safonau;
- **hylaw** – mae'r broses asesu yn un sy'n gosod gofynion rhesymol ar Ganolfannau a Dysgwyr; a
- **lleihau rhagfarn** – sicrhau nad yw asesiad yn arwain at ganlyniadau afresymol o andwyol i Ddysgwyr sy'n rhannu priodoledd neu amgylchiad cyffredin.

6.12 Os yw'r aseswr CDB yn nodi'r angen i egluro pwyntiau aneglur neu ddilysu tystiolaeth a gyflwynwyd gan y dysgwyr, gellir defnyddio dulliau asesu eraill i gasglu'r dystiolaeth hon. Mae nifer o ddulliau asesu y gellid eu defnyddio i gadarnhau gwybodaeth, sgiliau a phrofiad. Dyma rai enghreifftiau:

- Tystiolaeth gan gyflogwr dilys neu ddatganiad dilysu;
- Cyfweliad neu drafodaeth proffesiynol / dan arweiniad gyda'r dysgwr;
- Dadansoddi tystiolaeth ddogfennol o fewn papur neu bortffolio electronig megis gwaith cwrs; prosiectau neu dystiolaeth yn y gweithle; neu
- Logiau / cyfnodolion DPP.

6.13 Dylai'r asesiad o dystiolaeth CDB fod yn gyson gyda manyleb y cymhwyster ac yn amodol ar yr un prosesau sicrhau ansawdd mewnol â dulliau asesu eraill. Mae hyn hefyd yn berthnasol i bolisïau a gweithdrefnau cyrff dyfarnu a chanolfannau ar gyfer apeliadau a chwynion.

Cofnodi dyfarniadau CDB

6.14 Ar ôl cwblhau'r asesiad o dystiolaeth CDB, mae'n bwysig dogfennu'r dystiolaeth a'r meini prawf a ddefnyddiwyd a pha benderfyniad a wnaed. Lle caniateir CDB, bydd eich cofnod yn cadarnhau sut mae'r dystiolaeth yn cyfateb i'r meini prawf a pha ran neu'r cymhwyster cyfan sy'n cael ei ddyfarnu drwy CDB.

6.15 Os yw'r ganolfan wedi cynnal asesiad o dystiolaeth CDB, bydd angen i'r corff dyfarnu sicrhau bod y ganolfan yn cydymffurfio â'i gofynion i gadw cofnodion. Fel corff dyfarnu, gallwch ofyn am gopïau o'r rhain neu ofyn amdanynt yn ystod ymweliadau archwilio allanol, neu arolygu.

Ystyriaethau

- A oes gan y dysgwr y wybodaeth a'r sgiliau gofynnol o hyd, ac a yw'r rhain yn dal yn berthnasol?
- A oes gennych staff ag arbenigedd sector/pwnc perthnasol sydd wedi'u hyfforddi i asesu CDB?
- Pa gyfran o gynnwys y cymhwyster neu'r cwrs y gall tystiolaeth CDB ei chynnwys?
- A yw'r dystiolaeth CDB a gyflwynir yn dderbyniol?
- Beth yw'r ffyrdd mwyaf effeithiol ac effeithlon o gadarnhau/dilysu priodoldeb tystiolaeth CDB, e.e. triongli tystiolaeth, cyfweliadau?

Sicrhau Ansawdd Mewnol

6.16 Mae'r broses sicrhau ansawdd yr un mor bwysig i GDB ag ydyw ar gyfer unrhyw broses asesu arall. Mae'n sicrhau:

- bod dulliau a ddefnyddir yn cyd-fynd ag asesu a'u bod yn addas ar gyfer cymwysterau sy'n bodoli eisoes;
- bod safonau ansawdd yn cael eu cadw, eu cymhwyso a'u cysoni;
- bod darpar ddysgwyr yn cael digon o wybodaeth, arweiniad a chefnogaeth; a
- bod canlyniadau CDB yn cael eu monitro a'u hadolygu, a defnyddir gwybodaeth i wella systemau a phrosesau CDB dros amser.

6.17 Yn hyn o beth, rhaid i unrhyw gydnabyddiaeth a enillir tuag at fynediad i neu ar gyfer cymhwyster ei hun drwy CDB fod yn gadarn a chydymffurfio â'r Amodau Cydnabod yn yr un modd ag unrhyw gymhwyster arall a ddyfernwch.

Ystyriaethau
• A oes gennych staff ag arbenigedd sector/pwnc perthnasol sydd wedi'u hyfforddi i asesu CDB? • Sut fydd tystiolaeth drwy brofiad yn cael ei mesur? • Pa feini prawf y byddwch yn eu defnyddio i lunio barn ar briodoldeb tystiolaeth CDB? • Pa ddulliau y gellir eu defnyddio i ddogfennu mapio tystiolaeth CDB yn erbyn deilliannau dysgu a/neu feini prawf asesu?

7. Cyhoeddi datganiad polisi

7.1 Er mwyn cydymffurfio ag Amod E10.1, mae'n ofynnol i bob corff dyfarnu cydnabyddedig gyhoeddi a chynnal datganiad polisi sy'n esbonio i ddefnyddwyr cymwysterau a ganiateir CDB ai peidio.

7.2 Lle na chaniateir CDB, mae angen datganiad ar wefan y corff dyfarnu sy'n wynebu'r cyhoedd sy'n nodi'r sefyllfa'n glir.

7.3 Rhaid i gyrff dyfarnu sy'n caniatáu CDB gael polisi sy'n nodi'n glir yr hyn a ganiateir, yr amgylchiadau a'r prosesau canolfannau, y mae angen i'r dysgwyr a'r corff ddyfarnu ddilyn.

7.4 Lle caniateir CDB, byddwch yn sicrhau bod dyfarnu cymwysterau yn cydymffurfio â'ch holl Amodau Cydnabod.

7.5 Enghreifftiau yw'r rhain o'r meysydd y dylai datganiad polisi o'r fath gynnwys:

- ar ba sail y bydd y corff dyfarnu yn caniatáu CDB, lle mae'n dewis gwneud hynny, sut a phryd y gellir cymhwyso CDB, gan gynnwys cyfyngiadau lle bo hynny'n berthnasol;
- y mathau o CDB a ganiateir a'r prosesau ar gyfer clustnodi, cytuno, asesu a dyfarnu unedau a gyflawnwyd gan ddefnyddio methodoleg asesu CDB, a llinellau amser cysylltiedig;
- sut y bydd y corff dyfarnu yn hyrwyddo hyder y cyhoedd yn y system gymwysterau, gan sicrhau bod dulliau asesu a sicrhau ansawdd CDB yn drylwyr, yn ddibynadwy, yn gyson ac yn deg ar draws canolfannau a dysgwyr;
- arbenigedd disgwyliedig y staff sy'n gyfrifol am asesu a sicrhau ansawdd tystiolaeth CDB;

- sut y dylid cofnodi a chynnal asesiad o dystiolaeth CDB yn unol â gofynion y corff dyfarnu;
- y mathau o dystiolaeth CDB sydd ei hangen ar y corff dyfarnu i fodloni ei brosesau sicrhau ansawdd;
- y meini prawf a ddefnyddir wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â phriodoldeb CDB;
- sut y bydd y corff dyfarnu yn monitro ymlyniad canolfannau at brosesau CDB;
- polisïau a gweithdrefnau ar gyfer apeliadau a chwynion gan ddysgwyr; ac
- unrhyw ganllawiau eraill y bernir eu bod yn berthnasol i ganolfan y gallai'r broses CDB effeithio arni, er enghraifft, ffioedd cymwysterau.

7.6 Bydd cynnwys y datganiad polisi yn dibynnu ar ddulliau'r corff dyfarnu o ymdrin â CDB ac felly nid oes un dull sy'n addas i bawb.

7.7 Er mwyn hygyrchedd a thryloywder, ystyriwch leoliad gwybodaeth CDB ar eich gwefan i leihau lefel y llywio sydd ei angen ar ddefnyddwyr cymwysterau i ddod o hyd iddo.

8. Cynnal a chydymffurfio â'r polisi CDB

8.1 Er mwyn cydymffurfio ag Amod E10, mae'n ofynnol i gyrff dyfarnu bob amser i gynnal cywirdeb gwybodaeth sy'n ymwneud â CDB. Felly, mae angen i gyrff dyfarnu adolygu a diweddaru gwybodaeth gyhoeddedig yn rheolaidd er mwyn ychwanegu, dileu a diwygio gwybodaeth gyhoeddedig i adlewyrchu newidiadau i brosesau CDB neu ofynion sy'n benodol i gymwysterau.

8.2 Rhaid i bolisi CDB corff dyfarnu alluogi dyfarnu cymwysterau i ddysgwr lle mae CDB wedi'i dderbyn a bod tystiolaeth asesu yn adlewyrchiad dilys a dibynadwy o wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth y dysgwr.

Cefnogi canolfannau gyda CDB

8.3 Mae canolfannau'n chwarae rhan allweddol yn y broses CDB, felly mae'n bwysig bod canolfannau'n ymwybodol bod polisi CDB ar waith yn ogystal â'r

mecanweithiau i ganolfannau gael gafael ar gymorth ac arweiniad ar systemau CDB a dulliau gweithredu gan y corff dyfarnu.

8.4 Gall y corff dyfarnu gefnogi canolfannau i ddilyn ei bolisi CDB yn gywir drwy annog canolfannau i:

- fabwysiadu dull sy'n canolbwyntio ar y dysgwr, bod yn agored i'r cysyniad o CDB a gwneud CDB yn opsiwn ymarferol i ddysgwyr drwy greu diwylliant lle mae CDB yn bosibl o dan yr amgylchiadau cywir;
- cyhoeddi a chynnal gwybodaeth i staff, dysgwyr a darpar ddysgwyr ar brosesau CDB i'w dilyn;
- ystyried nodi'r gofynion ar gyfer clustnodi cyfleoedd i gymhwyso CDB fel rhan o bolisi derbyn dysgwyr;
- dynodi cyfrifoldeb i aelod o staff sy'n deall CDB a'i gymhwysiad; a
- datblygu systemau ac adnoddau i weithredu a chynnal prosesau CDB effeithiol.

8.5 Mae angen i'r corff dyfarnu ddarparu mynediad i ganolfannau at wybodaeth sy'n ymwneud â CDB. Dylai eich canolfannau fod yn ymwybodol o'ch polisi CDB ac efallai y byddai'n briodol darparu hyfforddiant ar eich polisi a'ch gweithdrefnau. Gallai cyfathrebu gynnwys trafodaethau gydag arbenigwyr pwnc / sector neu ymarferwyr asesu, adborth dan gyfarwyddyd archwiliadau corff dyfarnu sy'n ymwneud â phriodoldeb dulliau a chanlyniadau CDB, neu wybodaeth y gellir ei defnyddio heb orfod gofyn i'r corff dyfarnu am y wybodaeth.

8.6 Gellid datblygu adnoddau defnyddiol ar gyfer canolfannau fel templedi neu adnoddau matrics sy'n cynorthwyo canolfannau i gyfateb tystiolaeth CDB yn erbyn unedau a chymwysterau.

9. Gwybodaeth a chefnogaeth bellach

9.1 Rydym yn dal i adolygu ein canllawiau ac os oes gennych unrhyw adborth neu os hoffech gael cymorth ychwanegol am yr Amodau, yna cysylltwch â'r Tîm Polisi Rheoleiddio ar polisi@cymwysteraucymru.org.

10. Rhestr termau

Term/Ymadrodd	Diffiniad
Dysgu blaenorol	Gwybodaeth neu sgiliau a enillwyd drwy astudiaethau, gwaith neu brofiad cynharach.
Dysgu ffurfiol	Cyfarwyddiadau a roddir mewn lleoliad addysg neu hyfforddiant i ddiwallu deilliannau neu amcanion dysgu a ddiffiniwyd eisoes.
Dysgu heb fod yn ffurfiol	Dysgu a gymerwyd o brofiadau a gweithgareddau amgen nad ydynt yn cael eu cydnabod fel gweithgareddau dysgu ffurfiol.
Dysgu anffurfiol	Dysgu a phrofiad a enillwyd drwy weithgareddau bywyd bob dydd, a ddefnyddir yn aml gan ddysgwyr i gael mynediad i gwrs.
Asesiad cychwynnol	Y broses o glustnodi dysgu, cyflawniad a phrofiad blaenorol dysgwr yn erbyn gofynion cymhwyster neu uned benodol, cyn cofrestru.

11. Dolenni Defnyddiol

Pecyn Cymorth CDB a Fframwaith Credydau a Chymwysterau yr Alban (SCQF)
Mae SCQF yn flaengar o ran datblygu fframweithiau CDB cynhwysfawr, yn enwedig o ran ffoaduriaid, mewnfudwyr a cheiswyr lloches**.** Mae'r adnodd hwn yn gymorth i bennu dulliau CDB addas yn seiliedig ar anghenion y dysgwr.
https://scqf.org.uk/guide-to-rpl/rpl-tool/

Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (FfCChC)
Mae FfCChC yn cefnogi'r gydnabyddiaeth o gredyd a chymwysterau ar draws pob lefel, gan alluogi dysgwyr i symud ymlaen.
https://llywodraeth.cymru/credit-and-qualifications-framework-cqfw

Colegau Cymru
Elusen addysg sy'n hyrwyddo budd cyhoeddus addysg bellach yng Nghymru ac sy'n sicrhau bod dysgu'n cael ei ddarparu mewn lleoliad diogel, amrywiol a chynhwysol ac o fewn sector sy'n cefnogi'r gymuned ehangach, cyflogwyr a'r economi. Mae Colegau Cymru yn gweithio gyda cholegau a rhwydweithiau diwydiant i hyrwyddo CDB, yn enwedig ymhlith cymunedau ffoaduriaid a cheiswyr lloches.
https://www.colegau.cymru/

Cyngor Ffoaduriaid Cymru
Gwella'r sgiliau a'r profiadau y mae ceiswyr lloches a ffoaduriaid yn eu cynnig i Gymru i gefnogi integreiddio i fywyd a gwaith yng Nghymru.
https://cffc.cymru/

Awdurdod Cymwysterau'r Alban (ACA)
Mae ACA wedi cyhoeddi canllaw defnyddiol i asesu, sy'n cynnwys egwyddorion asesu, dulliau asesu a mathau o gwestiynau. Mae gwefan ACA hefyd yn cynnwys gwybodaeth am CDB.
https://www.sqa.org.uk/files_ccc/25GuideToAssessment.pdf